



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Swyddfa Cabinet a Maer

Cabinet & Mayor's Office

**Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell
Merthyr Tudful, CF47 8AN**

**Civic Centre, Castle Street
Merthyr Tydfil, CF47 8AN**

Ffon / Tel: 07855 332992

E Bost / E Mail: Mayoral@merthyr.gov.uk

Hydref 2019

Annwyl Berson Ifanc,

PARTHED: STRAFAGANSA GERDDOROL UCHEL SIRYF MORGANNWG GANOL

Diolch am eich diddordeb yn Rhagras Merthyr Tudful ar gyfer Strafagansa Gerddorol Uchel Siryf Morgannwg Ganol sy'n cael ei drefnu ledled siroedd Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae'r Strafagansa'n cael ei drefnu i arddangos y dalent anhygoel sy'n bodoli ymhlith pobl ifanc ledled Cymoedd de Cymru, yn ogystal ag i godi peth arian yn lleol ar gyfer elusen ddewisol y Maer, sef Canser Macmillan ac elusen ddewisol y Maer leuenctid sef Yr Orsaf Roddi; ac yn rhanbarthol gydag elusen ddewisol yr Uchel Siryf, sef Llamau, sy'n rhoi cymorth i leuenctid Digartref.

Bydd Rhagras Merthyr Tudful o'r Strafagansa Gerddorol yn cael ei chynnal yng Nghlwb Cymdeithasol Penydarren ddydd Iau 28 Tachwedd 2019 o 6.30pm. Bydd enillwyr Rhagras Merthyr Tudful yn ymuno â phobl ifanc ledled Pen-y-bont ar Ogwr a RhCT yn y Rownd Derfynol sydd i'w chynnal yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Caerdydd ddydd Sul 16 Chwefror 2020.

Gellir lawrlwytho copi o'r ffurflen gais o wefan eich ysgol neu wefan y Cyngor a'i dychwelyd drwy e-bost i mayoral@merthyr.gov.uk erbyn 12.00 pm ar 8 Tachwedd 2019.

Cynhelir y clyweliadau ddydd Iau 14 Tachwedd 2019 yng Nghlwb Cymdeithasol Penydarren o 4pm ymlaen, a rhaid i bob person ifanc sydd am berfformio yn Rhagras Merthyr Tudful fod yn bresennol.

Mae manylion pellach am y meini prawf a'r gwobrau i enillwyr rhanbarthol ar gael ar ofyn ond byddant yn cael eu darparu i bob person ifanc sy'n cyflwyno cais i gyfranogi.

Os oes unrhyw ymholiadau pellach gennych, os ydych am drafod eich cais neu berfformiad yn fanwl cysylltwch â'r Cynghorydd Chris Davies, Cydlynnydd Digwyddiadau Merthyr Tudful ar 07855 332992 neu drwy e-bost i chris.davies@merthyr.gov.uk

Diolchwn i chi ymlaen llaw am eich diddordeb yn y cyfle gwirioneddol gyffrous hwn i arddangos eich talent. Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

Yn gywir

Y Cyngh Chris Davies
*Hyrwyddwr Plant a Phobl
Ifanc CBSMT*

Y Cyngh Howard Barrett
Ei deilyngdod y Maer

Krystian Maciejczyk
Maer leuenctid